- **Capel Engedi Caernarfon, 1856** - cyfarfod cyntaf i drafod y freuddwyd o sefydlu Gwladfa dramor, gyda'r Gymraeg a chrefydd Anghydffurfiol yn ganolog i'r fenter.
- **28 Mai 1865** – Y Mimosa'n hwylio o ddociau Lerpwl am Dde America.
- **160 o Gymry ar ei bwrdd** â'u bryd ar ddechrau bywyd gwell, ymhell o galedi a gorthrwm Cymru.
- **Mordaith helbulus** – storm wrth basio Ynys Môn, gwres llethol wrth groesi'r cyhydedd a storm anferthol yn eu gyrru 300 milltir oddi ar eu cwrs ger Brasil.
- **Llawer o'r teithwyr yn marw**, yn blant ac yn oedolion - ond babanod yn cael eu geni hefyd.
- **28ain Gorffennaf 1865** – Mimosa'n glanio yn y Bae Newydd yn yr Ariannin, a chyn gadael y llong, gwisgodd y teithwyr eu dillad Sul o barch i'w cartref newydd.

- Yn hytrach na gwlad yn llifeirio o laeth a mêl, yn eu hwynebu roedd paith di-groeso, prinder bwyd a dŵr a chysgod annigonol ar gyfer y tywydd gaeafol.
- Drwy waith caled a dyfalbarhad yr arloeswyr cynnar, cafodd yr anialwch ei ddyfrhau a'i amaethu, â'u gwenith yn ennill medalau aur yn Chicago yn 1885.
- Enwyd y prif dref, Trelew, ar ôl Lewis Jones oedd yn hannu o Gaernarfon.
- 150 mlynedd yn ddiweddarach, mae'r Gymraeg i'w chlywed ar y stryd, mewn ysgol a chapel, ar wefusau'r gaucho ac mewn tŷ tê, a diwylliant Cymru yn fyw mewn eisteddfod a 'social'.

*Trefnwyd gan **Gyngor Tref Caernarfon** i nodi canrif a hanner ers yr ymfudo.*
Diolch i gorau'r dref am eu cefnogaeth.